**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20fed Medi 2004 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D D Millar | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Attridge (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); J Kennedy (Dirprwy Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol , Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Swyddog Prosiectau); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd na dderbyniodd y Clerc nac ef unrhyw eitemau i'w hystyried.

**3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

i. Llongyfarchwyd y Cynghorydd J A Roberts am gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ddinesig 2004/05.
ii. Estynnwyd dymuniadau gorau'r Awdurdod i'r Cynghorydd W T Owen yn dilyn ei arhosiad byr yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i'r Cynghorydd Gwilym O Williams nad oedd chwaith bod wedi yn dda yn ddiweddar. Croesawyd y ddau i'r cyfarfod.
iii. Hysbyswyd yr Aelodau y dylent oll bellach fod â'r dogfennau gwybodaeth amrywiol am yr Awdurdod yn eu meddiant, fel y rhestrwyd yn y llythyr gan y Swyddog Cyswllt Aelodau dyddiedig 13eg Medi. Gofynnwyd i unrhyw aelod nad oedd â phob dogfen yn ei f(m)eddiant i gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau i drefnu i gael y dogfennau.
iv. Roedd diwrnod cynefino ar gyfer aelodau newydd yr Awdurdod Tân i'w gynnal ddydd Mercher 29ain Medi 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl am 10 y bore. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd i holl aelodau'r Awdurdod Tân fynychu, penderfynwyd ei gyfyngu i aelodau newydd yn unig oherwydd y niferoedd a'r rhaglen.
v. Gwahoddwyd yr aelodau, yn dilyn y cyfarfod, i ymuno â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Swyddogion mewn seremoni gyflwyno yng Ngorsaf Dân Wrecsam lle byddai injan dân, nad oedd mo'i angen bellach, ac yr oedd yr Awdurdod wedi penderfynu ei chyfrannu i'r Gymdeithas Tân ac Achub Ryngwladol i'w defnyddio ym Mosnia, yn cael ei throsglwyddo'n swyddogol.
vi. Cyhoeddwyd dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgorau: byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod ar 18fed Hydref 2004 gyda'r Pwyllgor Gwerth

Gorau yn cynnal ei gyfarfod nesaf ar 11eg Tachwedd 2004, y ddau gyfarfod i gael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl am 10 y bore. Trefnwyd y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ar gyfer 20fed Rhagfyr 2004 am 10:30 y bore, a'r lleoliad fyddai Pencadlys Cyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni.

vii. Llongyfarchwyd Trysorydd yr Awdurdod, Mr Ken Finch, a oedd wedi dathlu penblwydd 'arbennig' ar 18fed Medi 2004.

Cyflwynodd yr Is-Gadeirydd longyfarchiadau'r Awdurdod i'r Cadeirydd, yntau hefyd wedi dathlu penblwydd oedd yn 'garreg filltir' ar 17eg Medi 2004.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf 2004

***Penderfynwyd: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. cyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 26ain Awst 2004
iii. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 26ain Awst 2004

**5) Materion yn Codi**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd. Tynnwyd sylw'r aelodau gan y Cynghorydd E F Evans at y ffaith fod eitem 4(i), yn Saesneg, ar yr agenda fusnes ar gyfer y cyfarfod hwn yn dangos bod y cofnodion a gyflwynwyd i'w cymeradwyo yn datgan yn anghywir fod y cyfarfod wedi cael ei gynnal ar 20fed Gorffennaf 2004 yn hytrach na 19eg Gorffennaf 2004. Nodwyd y gwall.

**6) Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn darparu gwybodaeth gryno i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ar 19eg Gorffennaf 2004. Yna, aeth yn ei flaen i fanylu'r digwyddiadau a'r gweithgarwch restrwyd yn yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod y ddau ddigwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) wedi creu cryn argraff arno: sef y noson yng nghangen Prestatyn pryd y cafwyd ymweliad gan Mr Chris Ruans AS, a'r digwyddiad gynhaliwyd yng Nghaergybi gyda golwg ar sefydlu cangen o'r Gymdeithas yn y dref. Calonogol oedd gweld cymaint o bobl ifanc a'u rhieni yn cefnogi'r ddau ddigwyddiad. Roedd y Cadeirydd o'r farn fod y Gynhadledd FIRE 2004 ym Manceinion wedi bod yn siomedig ar y cyfan, yn enwedig o ran nifer y mynychwyr, y prinder

arddangoswyr a chost y Gynhadledd. Roedd y digwyddiad i'w weld fel petai wedi ei anelu yn fwy tuag at swyddogion yn hytrach nag at aelodau awdurdodau. Teimlai y byddai efallai'n fwy buddiol, yn weithredol ac yn ariannol, i gyfuno'r Gynhadledd FIRE â'r Gynhadledd Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn y dyfodol. Cafodd yr aelodau wybod y penderfynwyd, yn dilyn y cyfarfod rhwng Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad, Mrs Edwina Hart AC ar 13eg Medi 2004 pryd y trafodwyd y trefniadau ôl-ddatganoli, i gynnal cyfarfod arall o'r Fforwm ar 30ain Medi 2004 gyda'r bwriad o drafod y ffordd ymlaen. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn bwriadu mynychu'r cyfarfod. Y Cadeirydd oedd yr unig gynrychiolydd o Gymru oedd yn bresennol yn y cyfarfod o Fforwm Tân yr LGA yn Llundain ar 17eg Medi 2004. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd oedd yr weithdrefn ddisgyblu newydd, cyfansoddiad Fforwm Tân yr LGA yn y dyfodol a'r amserlen arfaethedig ar gyfer sefydlu ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn Lloegr. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi pwysleisio nad oedd yn bwriadu cyflwyno ystafell reoli ranbarthol yng Nghymru, byddai sefydlu ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn Lloegr yn cael effaith ar awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd C Shone ynghylch pa faterion oedd dal heb eu penderfynu yn dilyn datrys yr anghydfod cyflog, dywedodd y Cadeirydd mai un o'r materion oedd y gweithdrefnau disgyblu newydd a fyddai, gobeithio, wedi cael eu datrys erbyn Ionawr 2005.

Diolchodd y Cynghorydd M Griffith i'r Cadeirydd am ei adroddiad ac am ymhelaethu ar y manylion oedd ynddo. Yn ei thyb hi, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith a'r ymroddiad ychwanegol roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn ymgymryd â hwy ac roedd yn teimlo fod hyn yn haeddu cydnabyddiaeth ariannol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai mater cydnabyddiaeth yn cael ei drafod dan eitem fusnes rhif 10 ar yr agenda. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad***

## 7) Adolygiad o Bensiynau

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi manylion canlyniad adolygiad diweddar ar y sefyllfa bresennol o ran y Ddarpariaeth Bensiynau ac effaith amcangyfrifedig ymddeoliadau yn y dyfodol. Esboniodd mai'r datganiad arferol a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Medi bob blwyddyn oedd yr adroddiad, a'i fod yn hunanesboniadol, ac mai'r argymhelliad oedd newid y swm a gyfrennir o'r gyllideb refeniw i'r Ddarpariaeth Bensiynau i £140,000 am yr un mlynedd ar ddeg nesaf, yn amodol ar adolygiad blynyddol. Ymddiheurodd y Trysorydd am y gwall oedd yn ymddangos yng ngholofn cyfanswm y "cyfraniad i'r ddarpariaeth" yn yr atodiad i'r adroddiad. Dylai'r cyfanswm ddangos £1,540,000.

Holodd y Cynghorydd E C George a oedd y Gweinidog, yn ystod cyfarfodydd diweddar, wedi rhoi unrhyw arwydd ynghylch a oedd Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu adolygu'r Cynllun Pensiwn unwaith y byddai'r Cynulliad

Cenedlaethol wedi cymryd y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd y Gweinidog wedi rhoi arwydd am unrhyw gynlluniau i gyflwyno newidiadau lleol i'r Cynllun Pensiwn yn dilyn datganoli. Aeth yn ei flaen i esbonio bod y Cynllun Pensiwn yn un o nifer o faterion trosiannol a oedd yn dal dan drafodaeth gyda swyddogion y Cynulliad, ac y byddai'n teithio i Gaerdydd y prynhawn hwnnw i drafod gwahanol faterion datganoli gyda gweision sifil y Cynulliad. Addawodd y Cadeirydd hefyd, godi'r mater yn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm ar 30ain Medi a gyda'r Gweinidog yn eu cyfarfod nesaf. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod yr Awdurdod yn gostwng y cyfraniad o'r refeniw i'r Ddarpariaeth Bensiynau i £140,000 y flwyddyn am yr un mlynedd ar ddeg nesaf, yn amodol ar adolygiad blynyddol***

**8) Alldro Amcanol 2004/05**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi manylion yr alldro amcanol amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004/05. Esboniodd fod cyllideb 2004/05 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer setliad Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth Mehefin 2003. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn dangos y lefelau presennol o wariant ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn. Cymeradwywyd talu camau olaf y Cytundeb yn ddiweddar, ac o'r herwydd roedd y ffigwr alldro amcanol amcangyfrifedig yn cymryd y taliadau hyn i ystyriaeth. Yna, aeth y Trysorydd yn ei flaen i fanylu ar y prif feysydd lle cafwyd tanwariant a gorwariant a restrwyd yn yr adroddiad. Roedd amryw o ffactorau wedi cyfrannu at y ffaith fod lefel y gwariant ar gyflogau wedi bod yn is o lawer nag a ragwelwyd y wreiddiol. Petai'r Awdurdod yn profi mwy o ddigwyddiadau tebyg i'r tân mawr yn Wrecsam yn ddiweddar, neu dywydd mawr yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, byddai hynny'n cael effaith mawr ar y swm a gaiff ei wario ar gyflogau. Ffactor arall, nad oedd yn rhan o'r ddarpariaeth yn y gyllideb, oedd y cynnydd mawr ym mhrisiau ynni a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y cwmnïau trydan a nwy. Nid oedd modd cyfrifo'n llwyr effaith y cynyddiadau hyn ar gyllideb yr Awdurdod ar hyn o bryd. Dywedodd y Trysorydd y byddai, erbyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2004, mewn gwell sefyllfa i ddarparu ffigwr alldro amcanol mwy cywir. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd E C George ynghylch a ddaeth rhagor o wybodaeth ynghylch a fyddai arian pontio yn ad-daladwy, dywedodd y Trysorydd na dderbyniwyd unrhyw arian pontio hyd yn hyn ac na ddaeth unrhyw gadarnhad ynghylch a fyddai unrhyw arian o'r fath yn ad-daladwy.

Holodd y Cynghorydd E F Evans a oedd gwall yng ngholofn y cyfansymiau ar dudalennau 4 a 5 o'r atodiad i'r adroddiad: roedd y golofn 'ffigyrau terfynol a ragwelir 2004/05' ar y fersiwn lawn o'r 'datganiad alldro i 31 Awst 2004' yn dangos mai'r cyfanswm oedd £26,176,235, tra roedd y ffurf Gwerth Gorau o'r 'datganiad alldro i 31 Awst 2004' yn dyfynnu cyfanswm 'ffigyrau terfynol a ragwelir 2004/05' fel £26, 276, 235. Fodd bynnag, roedd y ddwy fersiwn yn dyfynnu ffigwr 'amrywiant' o £676,016. Addawodd y Trysorydd ailedrych ar y

ffigyrau, ac os byddai gwall teipio ynddynt, byddai hynny'n cael ei gywiro. Os y deuai'r amlwg fod £100,000 wedi cael ei adael allan trwy amryfusedd o unrhyw un o'r manylion gwariant a ddyfynnwyd, byddai'n ysgrifennu at bob aelod gan roi esboniad llawn. Yna:

***Penderfynwyd*: -**

***i. nodi bod yr amcangyfrif alldro yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch presennol, a gallai'r rhain, fel y nodwyd yn yr adroddiad, newid; ac***
***ii. felly nodi'r tanwariant a rhoi ystyriaeth ar sut i ymdrin â'r tanwariant yn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân pan fyddai ffigwr alldro mwy diweddar ar gael***

**9) Cynllun Integredig Rheoli Risg 2**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am ofynion yr ail flwyddyn o'r drefn Cynllunio Integredig Rheoli Risg (IRMP), gan awgrymu meysydd i'w datblygu ac i ymchwilio iddynt ymhellach, a chynnig bod y Panel Gweithredol yn cael ei awdurdodi i ddatblygu'r cynigion ac ymgynghori â'r cyhoedd. Er budd aelodau newydd o'r Awdurdod, cyn manylu ar gynnwys yr adroddiad, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth gefndirol am broses y Cynllun Risg a chrynodeb o'r weithdrefn roedd yr Awdurdod wedi ei dilyn wrth lunio'r Cynllun Risg cyntaf a'r cynllun gweithredu yn 2003/04. Yn ddiweddar, roedd pob aelod wedi cael copi o Gynllun Risg cyntaf yr Awdurdod a'r cynllun gweithredu, ynghyd â'r adroddiadau a'r cofnodion yn ymwneud â'i fabwysiadu. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân fod y canllawiau gyhoeddwyd ar gyfer ail flwyddyn y Cynllun Risg yn pwysleisio mai'r gofyniad oedd ategu a bwrw ymlaen ganfyddiadau'r cynllun cyntaf, a llunio cynllun gweithredu ail flwyddyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Nid oedd gofyniad i wneud newidiadau sylfaenol i'r cynllun gwreiddiol. Oherwydd y gofyniad i sicrhau cysondeb gyda'r ddogfen Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol, yr oeddid yn dal i aros ei gyhoeddi, yr angen i gydosod proses y Cynllun Risg gyda phroses y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2005/06 a'r oedi a achoswyd gan aildrefnu etholiadau'r awdurdodau lleol, roedd yr amserlen ar gyfer llunio'r cynllun gweithredu drafft a'r ymgynghoriad yn dynn tu hwnt. O ganlyniad, roedd y swyddogion wedi awgrymu amryw o feysydd pwnc ar gyfer eu datblygu ac i ymchwilio iddynt ymhellach i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26ain Awst 2004, iddynt hwy eu hystyried. Yna, aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen i fanylu ar yr amrywiol feysydd pwnc a restrwyd yn ei adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Ymunodd y Cynghorydd D D Millar â'r cyfarfod ar yr adeg hon.

Holodd y Cynghorydd D Jones a fyddai modd i'r Swyddogion adrodd i'r Awdurdod ynghylch yr arbedion ariannol a wnaed trwy waith cydweithrediadol gydag awdurdodau tân ac achub cyfagos, gan ei fod yn gadarn o'r farn ei bod yn bwysig i'r Awdurdod allu dangos i'r cyhoedd y manteision a'r arbedion a

gyflawnwyd trwy broses y Cynllun Risg. Cytunodd y Prif Swyddog Tân i gynnwys yr wybodaeth hon fel rhan o'r gwaith ar y cynllun gweithredu diwygiedig. Yna:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi cynnwys yr adroddiad; ac***
- ***ii. awdurdodi'r Panel Gweithredol i ddatblygu'r meysydd pwnc arfaethedig, gan wneud gwelliannau, ychwanegiadau a newidiadau fel y gwelent orau, ac unwaith y byddent yn fodlon, i ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynllun gweithredu ail flwyddyn***

**10) Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân**

Yn absenoldeb y Clerc, gwahoddodd y Cadeirydd y Dirprwy Swyddog Monitro, i roi gwybodaeth ar lafar i'r aelodau am y datblygiadau diweddaraf ynghylch cyflwyno cynllun lwfansau i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru. Cafodd yr aelodau wybod gan y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Clerc wedi derbyn copi o'r rheoliadau drafft diwygiedig, oedd i'w gosod gerbron y Cynulliad ar 21ain Medi 2004, ganol y bore Gwener blaenorol yn gofyn am ei sylwadau erbyn 3 o'r gloch y prynhawn hwnnw. Oherwydd yr amserlen dynn tu hwnt roddwyd iddo i wneud sylwadau ar y rheoliadau diwygiedig, dim ond mân sylwadau oedd y Clerc wedi gallu eu cyflwyno. Roedd cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau i fod i gael ei drafod yn y sesiwn lawn o'r Cynulliad ar 28ain Medi, a phetaent yn cael eu cymeradwyo byddent yn dod i rym ar 29ain Medi 2004.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Dirprwy Swyddog Monitro fod y rheoliadau a gyhoeddwyd yn darparu ar gyfer talu lwfans sylfaenol o hyd at £505 i'r holl aelodau am weddill y flwyddyn 2004/05. Am y flwyddyn ariannol 2005/06, ni ddylai'r lwfans a delid fod yn uwch na £1002. Nid allai cynyddiadau yn y lwfansau o 2006 ymlaen fod yn uwch na chyfartaledd y cynyddiadau yn y lwfansau sylfaenol yn yr awdurdodau cyfansoddol. Ni ddylai swm y Lwfans Cyfrifoldebau Arbennig a delid i'r Cadeirydd am yr hyn sy'n weddill o 2004/05 fod yn uwch na £4591, ac ni ddylai'r taliad am 2005/06 fod yn uwch na £9108. Ni ddylai'r lwfansau cyfatebol a delid i'r Is-Gadeirydd fod yn uwch na £3529 a £7000 yn y drefn honno. Byddai'r un amod fyddai'n gymwys i'r lwfans sylfaenol o 2006 ymlaen hefyd yn gymwys i'r Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig: ni allai'r cynnydd ym mhob Lwfans Cyfrifoldebau Arbennig fod yn uwch na chyfartaledd y cynyddiadau yn y Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig a delid gan yr awdurdodau cyfansoddol. Roedd y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau i dalu lwfans gofalu a lwfansau teithio a chynhaliaeth. Hysbyswyd yr Awdurdod gan y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Clerc yn dilyn trafodaeth bellach gyda swyddogion y Cynulliad am ôl-ddyddio'r lwfansau, yn fodlon nad oedd y Cynulliad mewn sefyllfa i ôl-ddyddio'r cynllun i ddyddiad cyn 29 Medi 2004, os mai hwnnw oedd y dyddiad pryd y byddai'r Rheoliadau'n dod i rym. Roedd hyn yn groes i'r sefyllfa wynebwyd gan y cynghorau yn 2002 pan roedd y rheoliadau yn caniatáu i unrhyw newidiadau a wnaent gael eu hôl-ddyddio i'r 1af Ebrill. Roedd y ffaith nad oedd unrhyw gynllun lwfansau'n bodoli ar hyn o bryd i

aelodau awdurdodau tân yn gwahardd ôl-ddyddio taliadau i ddyddiad cyn yr adeg pryd y daeth y rheoliadau i rym. Byddai unrhyw newidiadau i'r cynllun mewn blynyddoedd i ddod yn caniatáu ôl-ddyddio i'r 1af Ebrill yn y flwyddyn dan sylw. O ganlyniad, roedd yn debygol y byddai'r Awdurdod yn wynebu arbedion sylweddol yn ei gyllideb yn 2004/05 gan y byddai'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer lwfansau yn llawer uwch na'r swm ganiateid i'w dalu dan y ddeddfwriaeth.

Cafodd yr aelodau wybod nad oedd raid iddynt benderfynu ar fanylion cynllun lwfansau'r Awdurdod yn y cyfarfod presennol. Gellir dirprwyo'r dasg honno i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf ar 18fed Hydref 2004. Gallai'r Panel Gweithredol ystyried cynnwys y cynllun mewn manylder a chyflwyno ei argymhellion i'r Awdurdod Tân ar gyfer eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Swyddog Monitro am drosglwyddo gwybodaeth y Clerc i'r Awdurdod. Cofrestrodd ei anfodlonrwydd ynghylch y ffaith fod ôl-ddyddio'r lwfansau wedi cael ei wrthod. Roedd y Cadeirydd yn fodlon derbyn y cyngor cyfreithiol gan y Clerc, ond roedd yn gadarn o'r farn mai'r Cynulliad oedd yn gyfrifol am yr oedi wrth gyflwyno'r cynllun lwfansau yng Nghymru. Aeth rhyw 18 mis heibio ers yr ymgynghori cyntaf ar yr egwyddor o sefydlu cynllun, a chymeradwyo'r rheoliadau yn ffurfiol.

Holodd y Cynghorydd D Jones sut roedd y rheoliadau arfaethedig yn cymharu â'r rheoliadau oedd yn llywodraethu'r lwfansau a delid i aelodau awdurdodau heddlu. Dywedodd y Cadeirydd y gwneid ymholiadau a'u hadrodd i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Hydref ac i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.

Roedd y Trysorydd o'r farn y gallai'r Awdurdod, gan ei fod eisoes wedi cytuno i'r egwyddor o gefnogi cyflwyno cynllun lwfansau i aelodau, fabwysiadu penderfyniad i sefydlu ei gynllun ei hun o'r dyddiad cynharaf posib. Roedd nifer o aelodau'n cyd-fynd â'r farn hon, a thrwy bleidlais fwyafrifol:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***bod Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn sefydlu cynllun lwfansau ar gyfer aelodau'r awdurdod tân o 29ain Medi 2004 ymlaen, neu o'r dyddiad cynharaf a ganiateid gan y ddeddfwriaeth; a***
ii. ***bod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 18fed Hydref 2004, yn ystyried manylion y Cynllun ac yn cyflwyno ei argymhellion i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr ar gyfer eu cymeradwyo a'u mabwysiadu***

Gofynnodd y Cynghorwyr D D Millar a C Shone i'w pleidleisiau yn erbyn y penderfyniad uchod gael ei gofnodi. Dywedodd y Cynghorydd Millar ei fod yn

gwrthwynebu'r egwyddor o dalu lwfansau i aelodau anweithredol cyffredin o awdurdodau tân.

## 11) Newidiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad y Clerc (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn unol ag argymhellion y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Awst 2004. Cynigwyd ac eiliwyd y newidiadau, a:

***Penderfynwyd*: - nodi'r newidiadau fel y rhestrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, a bod y drafodaeth ar y newidiadau yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr 2004**

## 12) Fframwaith Rheoli Perfformiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i hysbysu'r aelodau am y cynnydd a wnaed ynghylch datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Dywedodd fod yr Awdurdod, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn rhwym gan ddarpariaethau Gwerth Gorau at ddiben hybu gwasanaeth cyhoeddus o safon uchel oedd yn ateb gofynion oedd wedi cael eu hadnabod. Pan fyddai'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, byddai'r Gwasanaethau yn dod dan nawdd yr hyn sy'n cyfateb yng Nghymru i'r gyfundrefn Gwerth Gorau sef Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI), sef yr un mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn ei dilyn ers 2002. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddaraf ynghylch y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd yn benodol ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor Llywio, a sefydlwyd i ddatblygu'r fframwaith, yn cyfarfod yn rheolaidd, ac roedd yn obeithiol y byddai rhagor o wybodaeth ynghylch yr hynt ar gael erbyn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael toriad byr ar yr adeg hon.

Torrodd y cyfarfod am 11:30 y bore ac ailymgynnull am 11:45.

Gadawodd y Cynghorydd E C George y cyfarfod ar yr adeg hon.

## 13) Cyflwyniad ar y Safon Cydraddoldebau ar gyfer Cymru

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Naomi Alleyne, Pennaeth Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i roi

cyflwyniad i'r aelodau ar y Safon Cydraddoldeb ar gyfer Cymru. Dosbarthwyd copïau i bawb o'r cyflwyniad ynghyd â chopi o ddogfen Crynodeb Gweithredol yr adroddiad "Rheoli Cydraddoldeb mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru". Roedd yr adroddiad a'r crynodeb gweithredol, a gyhoeddwyd yr wythnos flaenorol, yn ffrwyth gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar ran y Gymdeithas gan Brifysgol Cymru, Abertawe.

Yna, rhoddodd Miss Alleyne wybodaeth gefndir i'r aelodau ar y "Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru", ac esboniodd fod y Safon yn fframwaith cynhwysfawr wedi ei gynllunio i ddatblygu a gosod cydraddoldebau ar draws rhychwant polisïau a swyddogaethau sefydliad. Ei ddiben oedd mynd i'r afael â materion cyfle cyfartal, nid yn unig ar gyfer gweithwyr, ond hefyd ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol o ran y ffordd mae sefydliad yn cyflwyno gwasanaethau. Roedd cydraddoldebau yn agenda a oedd yn datblygu. Byddai dod â gwahanol linynnau cydraddoldeb ynghyd o dan un ambarél a mabwysiadu'r Safon yn hwyluso unrhyw newidiadau angenrheidiol a fyddai'n dod oherwydd gwelliannau i'r myrdd o ddeddfwriaeth oedd yn llywodraethu materion cydraddoldeb. Esboniodd fod y Safon Cydraddoldeb yn hollol gydnaws â'r rhaglen foderneiddio ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub, ac y byddai'n integreiddio'n dda gyda'r fframwaith rheoli perfformiad newydd oedd yn cael ei ddatblygu dan y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Yn ddiweddar, roedd Sefydliad y Cyflogwyr wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu datblygu fframwaith a fyddai'n cyd-fynd fwy gyda strwythur weithredol y gwasanaethau tân ac achub.

Pwysleisiodd Ms Alleyne fod angen cael ymrwymiad corfforaethol i'r Safon Cydraddoldeb, gan y staff ac aelodau'r Awdurdod fel ei gilydd. Byddai angen datblygu nodau clir a chynllun gweithredu realistig yn rhestru disgwyliadau'r Awdurdod o ran cyflawniadau o fewn graddfeydd amser penodol. Byddai cynnydd yn cael ei fesur trwy ddull hunanasesu: byddai data a thystiolaeth yn cael eu casglu, eu gwerthuso a'u dilysu cyn adrodd ynghylch y canlyniadau. Pwysleisiodd fod angen i'r gwaith fod yn effeithiol ac yn ardrawiadol, roedd yn hanfodol fod y Swyddogion yn derbyn cefnogaeth yr Awdurdod er mwyn gyrru'r agenda yn ei blaen. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi sefydlu Grŵp Llywio, a oedd wedi cael y dasg o gywain yr wybodaeth angenrheidiol a gyrru'r agenda cydraddoldebau yn ei blaen. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd C Shone, dywedodd Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth, Ms Sue Jones, wrth yr aelodau fod y Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o staff gweithredol a chefnogol, rhai rhan amser a llawn amser, o ledled ardal y Gwasanaeth.

Yn dilyn y cyflwyniad gwahoddodd Ms Alleyne yr aelodau i ofyn cwestiynau, ac atebodd hithau hwy. Llongyfarchwyd Ms Alleyne gan y Cynghorydd D Jones am gyflwyniad diddorol iawn ond cofnododd ei siom fod y sleidiau a ddangoswyd yn rhai Saesneg yn unig. Roedd o'r farn nad oedd y cyflwyniad felly'n cydymffurfio â holl ethos y Safon Cydraddoldeb. Ymddiheurodd Ms Alleyne am hyn. Ailddatganodd y Prif Swyddog Tân ei ymrwymiad y byddai'r

Awdurdod a'r Gwasanaeth yn ymdrechu i gadw at y Safon Cydraddoldeb. Roedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ledled Gwledydd Prydain, hanes gwael yn hyn o beth. Hefyd, tynnodd sylw'r aelodau at y ffaith y byddai cydymffurfio â'r Safon yn golygu costau ychwanegol a fyddai'n gorfod dod o gyllideb yr Awdurdod. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Awdurdod, i Ms Alleyne am fynychu'r cyfarfod ac am ddarparu gorolwg cynhwysfawr o'r Safon iddynt.

**14) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn "Er Gwybodaeth" i'r aelodau. Cytunodd y Cadeirydd â safbwynt y Prif Swyddog Tân fod y rhifyn cyfredol yn un arbennig o dda, a llongyfarchodd a diolchodd i Bethan Davies, Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus y Gwasanaeth am y gwaith aruthrol roedd wedi ymgymryd ag o yn ysgrifennu, yn cywain ac yn golygu'r cylchgrawn. Felly:

***Penderfynwyd*: - derbyn y cylchgrawn**

**15) Materion Brys**

Dim.

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 20 Rhagfyr, 2004